Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Bronllwyn

**Colwyn Road**
**Gelli**
**Gelli**
**CF41 7NW**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Bronllwyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Bronllwyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 227 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 171 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 29 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23.0%) | 16.6% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 2.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 65.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 02/07/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 04/03/2014 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Bronllwyn yn ysgol hapus a chartrefol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ddarparu amgylchedd gofalgar, cefnogol a diogel i ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn adeiladu perthnasoedd hynod o gadarnhaol ag aelodau staff sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr awyrgylch ddysgu fyrlymus sy'n bodoli.

Mae disgyblion yn caffael yr iaith Gymraeg yn gynnar ac yn effeithiol gan sgwrsio'n hyderus mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau dysgu. Maent yn dangos balchder wrth siarad Cymraeg ac yn ymfalchïo eu bod yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog, hyderus erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae ymddygiad ac agweddau'r disgyblion at ddysgu yn gryfder. Maent yn ofalgar o'u cyfoedion, yn barchus tuag at oedolion, ac yn gwrtais i ymwelwyr, boed hynny mewn gwersi neu yn ystod amser egwyl.  Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn ymroi'n frwdfrydig i'w dysgu. Maent yn cydweithio'n ddiwyd ar ystod o dasgau.

Mae gweledigaeth glir yr ysgol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a'r pwyslais cadarn ar werthoedd cytûn yn cefnogi athrawon a staff i ddarparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn a chynnal brwdfrydedd, a diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau fwyfwy annibynnol am eu dysgu bob tro.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Ceir ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd ym mhob dosbarth ac mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol i wneud yn siŵr fod disgyblion yn cyflawni'n dda gan ddefnyddio'r medrau hyn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon aml ac nid yw medrau digidol, ar draws yr holl ystod, wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae gwybodaeth disgyblion am e-ddiogelwch yn gryfder.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth eglur a phwrpasol. Mae'n gwerthfawrogi barn staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr, ac yn gwneud yn siŵr fod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Caiff ei chynorthwyo'n fedrus gan gorff llywodraethol ymroddgar sydd â dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

## Argymhellion

A1 Gwella agweddau o fedrau digidol disgyblion

A2 Datblygu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn unigol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n arbennig o dda ar ei gilydd ac ar oedolion. Ar draws yr ysgol, mae medrau llafar y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar waelod yr ysgol yn dechrau datblygu geirfa syml yn gyflym. Erbyn Blwyddyn 1 a 2, mae'r rhan fwyaf yn ehangu eu geirfa yn briodol i sgwrsio am eu gwaith a'u profiadau gan ddefnyddio tafodiaith leol yn naturiol, er enghraifft wrth ddisgrifio nodweddion yr hydref yn dilyn ymweliad â'r parc lleol. Mae medrau llafar rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn adeiladu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith. Maent yn siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus ac yn defnyddio geirfa bwrpasol, er enghraifft wrth drafod os bydd pêl-droedwyr Cymru'n llwyddiannus yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn ddeallus ac aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, er enghraifft wrth leisio safbwyntiau gwahanol am beryglon cynhesu byd-eang.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus gan egluro'r cynnwys. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol, gan wneud hynny yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu lleisiau ac yn defnyddio atalnodi'n fwriadus i ddangos eu dealltwriaeth. Yn ogystal, maent yn llithrddarllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Er enghraifft, wrth ymchwilio i hanes Nelson Mandela fel rhan o'r gwaith thema, maent yn dyfnhau eu dealltwriaeth o degwch, cyfiawnder a hawliau dynol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus wrth ddarllen testun a blaenoriaethu rhinweddau allweddol i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o fyw yn iach.

Wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r ysgol, mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf yn datblygu'n dda. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae'r rhan fwyaf yn dangos brwdfrydedd tuag at ysgrifennu wrth arbrofi â gwneud marciau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r disgyblion yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau gan gynnwys ffurfiau creadigol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Maent yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyr ffurfiol i erfyn ar y Prif Weinidog i leihau peryglon cynhesu byd eang ac yn llunio portreadau cofiadwy o gymeriadau allweddol mewn hanes.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gallu cyfrif hyd at 10 yn llwyddiannus. Maent wrth eu bodd yn twrio yn y twba tywod am ddiemwntau i gyfateb i rif penodol i gymhwyso'u dealltwriaeth o gyfatebiaeth un i un. Mae hyn yn annog y disgyblion i fwynhau mathemateg o oed cynnar. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dwysáu eu dealltwriaeth o'r pedair rheol fathemategol ac yn defnyddio unedau

safonol yn hyderus ac annibynnol wrth gyfrifo perimedr ac arwynebedd gwrthrychau amrywiol ar dir yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd i'r un safon ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio llechen electronig yn effeithiol i gofnodi eu gwaith ac yn rheoli teclyn rhaglenadwy yn hyderus, er enghraifft. Yn y dosbarthiadau hŷn, mae llawer yn ymchwilio'n ddiogel ar y we ac yn defnyddio rhaglenni addas i wneud cyflwyniadau amlgyfrwng o'u gwaith. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, ychydig iawn sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data, creu taenlenni i fodelu sefyllfaoedd byd go iawn a llunio graffiau amrywiol a phwrpasol. Mae gwybodaeth bron pob un o'r disgyblion am e-ddiogelwch yn gadarn iawn.

Mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn fedrus i gynhyrchu gwaith celf trawiadol. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn datblygu medrau chwarae offerynnau cerdd amrywiol yn addas.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu medrau corfforol yn dda drwy'r ysgol. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wersi sy'n hybu eu hiechyd a'u lles, fel chwarae gemau tîm a chymryd rhan mewn sesiynau ffitrwydd a dawns.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob disgybl yn gwrtais ac yn arddangos lefel uchel o barch tuag at ei gilydd ac oedolion. Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau pobl eraill, er enghraifft drwy ganiatáu i eraill siarad neu fod yn bwyllog pan fydd eu cyfoedion yn anghytuno â nhw yn y sesiynau cylch. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus yn yr ysgol ac yn siarad yn frwd am eu profiadau a'r hyn maent yn ei ddysgu. Maent yn cyfarch yn serchus, yn gyfeillgar â'i gilydd ac yn dal drysau i eraill wrth fynd o gwmpas yr ysgol. Maent yn adeiladu perthnasoedd hynod o gadarnhaol ag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae hyn yn nodwedd gref sydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr awyrgylch ddysgu fyrlymus sy'n bodoli.

Mae ymddygiad rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda mewn gwersi, wrth symud o gwmpas yr ysgol ac yn ystod amser hamdden. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn dangos balchder at eu hardal leol a'u hysgol. Maent yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a'u treftadaeth. Er enghraifft, maent yn canu anthem Cwpan y Byd tîm Cymru gydag angerdd a mwynhad. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarn ar les ac agweddau dysgu'r disgyblion, ac mae eu cyfraniadau'n ganolog i ethos a datganiad o weledigaeth yr ysgol, sef 'Dwlu ar Ddysgu'.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfrannu'n bwrpasol at yr hyn maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, maent yn manteisio ar y cyfle i rannu eu diddordebau a'u dyheadau wrth gyfrannu i fapiau meddwl ar ddechrau thema dymhorol. O ganlyniad, mae brwdfrydedd a chyfranogiad y disgyblion tuag at eu dysgu yn gadarn. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb i adborth amserol gan oedolion a'u cyfoedion wrth ddefnyddio strategaethau cyson fel y 'Pinc Perffaith' a'r 'Gwirio Gwyrdd'. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth hunanasesu ac asesu gwaith eu cyfoedion.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth gwblhau tasgau, er enghraifft wrth iddynt ymchwilio i, a chyfrifo, costau ymweliad â Qatar. Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn barod i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau. O ganlyniad, mae disgyblion yn chwarae rhan bwrpasol ym mywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft wrth benodi uwch arweinwyr ac wrth i'r Criw Cymraeg ymweld â dwy ysgol Saesneg gyfagos er mwyn arwain gwersi canu Cymraeg.

Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i fod yn unigolion iach a hyderus, ac yn deall, er enghraifft, sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet. Maent yn siarad yn ddeallus am bwysigrwydd bwyta ffrwythau a llysiau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn iawn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar lein ac mae ymweliadau'r swyddog heddlu cymunedol yn atgyfnerthu hyn. Mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr gwybodus ac egwyddorol drwy arwain cyfarfod ar-lein am bwysigrwydd e-ddiogelwch i rieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned leol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda yn ystod gwersi, amser egwyl ac amser cinio, a thrwy sesiynau chwaraeon a ffitrwydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu medrau cydbwyso ac yn cryfhau eu cyhyrau wrth ddefnyddio'r wal ddringo ar iard yr ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy'n barod i ddysgu. Maent yn rhyngweithio ag oedolion yn llwyddiannus, ac yn dyfalbarhau â'u gwaith, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 1 adeiladu atyniad enwog, fel y Tŵr Eifl, allan o flociau mawr pren.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu fel dinasyddion moesegol a gwybodus, er enghraifft drwy eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb drwy astudio enwogion fel rhan o wythnos pobl dduon. Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion ymwybyddiaeth o hawliau plant. Siaradant yn hyderus am 'hawl y mis' a beth mae'n ei olygu iddynt. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o ddibenion rheolau, gwobrau a chosbau yn yr ysgol, er enghraifft drwy weithredu camau ymddygiad y dosbarth.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yn dda. Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm symbylus a phwrpasol sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiadau'r disgyblion yn effeithiol. Maent wedi diwygio'r cynlluniau gwaith wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru gan gynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu ystod o brofiadau dysgu o fewn cyd-destunau dilys. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gymhelliant, ymrwymiad a chyflawniad y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae egwyddorion ehangach y cwricwlwm yn datblygu'n briodol wrth feithrin disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a mentrus ac i 'anelu am y sêr', sydd yn rhan allweddol o weledigaeth yr ysgol.

Mae gan bob aelod o staff berthynas waith hynod gadarnhaol â disgyblion. Maent yn cydweithio fel aelodau effeithiol o dîm ac yn darparu ystod eang o weithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau allweddol a'u medrau cymdeithasol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn defnyddio eu medrau llythrennedd a'u medrau digidol, gan gydweithio i lunio ffilm o gêm bêl-droed gyda sylwebaeth fyw yn y Gymraeg.

Mae staff yr ysgol yn cydweithio’n frwdfrydig ac angerddol i drochi’r disgyblion yn yr iaith Gymraeg o’u cyfnod cyntaf yn yr ysgol. Defnyddiant gân ac ystum yn effeithiol fel rhan allweddol o’u rhaglen ‘Clebran Cywir’ dyddiol. Mae’r rhan fwyaf o’r staff yn modelu iaith yn feistrolgar, yn dangos brwdfrydedd at yr iaith ac yn arddel disgwyliadau uchel ar gyfer safonau llafar disgyblion. Mae hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth gaffael yr iaith, a’i defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol. Mae ethos Cymreig cryf yr ysgol, ynghyd â'r ddarpariaeth, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys. Mae’r ysgol hefyd yn darparu sesiynau wythnosol llwyddiannus i ddisgyblion Blwyddyn 3  ddysgu Ffrangeg er mwyn bod yn amlieithog. Mae athrawon yn cynllunio’n effeithiol ar gyfer datblygu medrau meddwl, darllen, llafar ac ysgrifennu disgyblion ac, o ganlyniad, maent yn eu defnyddio’n hyderus ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio ar gyfer datblygu medrau digidol a rhifedd disgyblion yn sicrhau digon o gyfleoedd i ddisgyblion ar draws yr ysgol gymhwyso’r holl ystod o fedrau yn rheolaidd.

Llwydda’r athrawon i wneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr. Mae arddangosfeydd lliwgar a rhyngweithiol y dosbarthiadau a’r coridorau yn cefnogi’r dysgu yn grefftus.  Mae’r ardaloedd dysgu atyniadol yn y dosbarthiadau tu mewn a thu allan yn cael eu defnyddio’n fwriadus i annog disgyblion i weithio’n gynhyrchiol a chyfoethogi’u profiad. Mae’r gwaith cynllunio ar gyfer heriau ar ffurf carwsél i ddisgyblion hynaf yr ysgol yn cynnig cyfleoedd i’r disgyblion i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a’u profiadau yn effeithiol. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae gorarwain gan y staff, sydd yn ei dro’n llesteirio gallu disgyblion I wneud dewisiadau fwyfwy annibynnol am eu dysgu. Yn gyffredinol, nid yw’r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion yn ddigon effeithiol i wneud dewisiadau annibynnol am sut maent yn dysgu.

Mae’r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd parhaus i gyfoethogi’r cwricwlwm, er enghraifft drwy deithiau addysgol i Sain Fagan i ddysgu am Oes Fictoria ac i leoliadau eraill i ddatblygu medrau ymchwil gwyddonol y disgyblion. Maent hefyd yn gwahodd ymwelwyr i’r ysgol ac yn cael mewnbwn gan rieni. Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliannau eraill, er enghraifft wrth iddynt ddysgu am wyliau Diwali a phwysigrwydd y Mehndi mewn dathliadau Hindŵaeth.

Mae adborth llafar staff yn gryfder ac yn helpu llawer o ddisgyblion i wybod pa mor dda maent yn ei wneud a sut i wella eu gwaith. Mae athrawon yn monitro dysgu disgyblion trwy ddefnydd cyson o gwestiynu treiddgar a chynhaliol. Er enghraifft, mae athrawon yn rhoi amser i ddisgyblion feddwl cyn ymateb ac yn darparu cyfleoedd iddynt drafod eu gwaith â phartneriaid. Mae’r staff yn mynd i’r afael ag unrhyw gamsyniadau yn amserol a phwrpasol. Mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig effeithiol hefyd. O ganlyniad, mae llawer o’r disgyblion yn mynd ati i fireinio eu gwaith yn annibynnol gan wneud gwelliannau buddiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae holl staff yr ysgol yn ymroddedig i greu cymuned ofalgar, gartrefol a chynnes. Maent yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth gref o werthoedd yr ysgol, ac o ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch, caredigrwydd a goddefgarwch tuag at bobl eraill.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol disgyblion yn ystod gwasanaethau a gweithgareddau ystafell ddosbarth. Mae staff yn annog disgyblion i ystyried barn pobl eraill yn sensitif a chydnabod a pharchu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a phwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn astudio hanes Rosa Parks er mwyn ystyried dewrder pobl dduon sydd wedi sefyll yn erbyn anghyfiawnder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r staff yn cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac yn rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion o oed ifanc. Mae'r athrawon a chymorthyddion dysgu yn cydweithio'n agos â'i gilydd i sicrhau bod disgyblion yn derbyn arweiniad pwrpasol ac ystyriol mewn ystafelloedd dosbarth ac yn yr ardaloedd allanol.

Mae gan yr ysgol ystod o ddarpariaeth gynhwysfawr sy'n cael ei defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau allweddol. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn effeithiol iawn yn ei rôl ac yn sicrhau bod cynlluniau addysg unigol disgyblion yn gyfredol. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni. Mae'r CADY yn arwain yr ysgol o ran olrhain cynnydd y disgyblion ag ADY, a'r disgyblion sy'n derbyn ymyrraeth, yn drwyadl. O ganlyniad i'r ddarpariaeth a'r monitro, mae rhan fwyaf o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion bregus yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys.

Caiff disgyblion hŷn gyfleoedd priodol i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, er enghraifft yng nghlwb chwaraeon yr Urdd er mwyn datblygu eu medrau corfforol. Mae sesiynau ffitrwydd wythnosol a hyfforddiant rygbi gan asiantaethau allanol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus. Trwy gyfleoedd creadigol cyson yr ysgol, perfformiadau fel jambori cenedlaethol yr Urdd a pherfformiadau côr yr ysgol yn y gymuned, mae staff yn cefnogi disgyblion i fagu hyder i gymryd rhan mewn amrywiaeth ddiddorol o weithgareddau. Mae'r cyfleoedd pwysig hyn yn cefnogi disgyblion i fireinio eu medrau creadigol wrth ymgysylltu â'r celfyddydau mynegiannol yn llwyddiannus.

Ceir nifer o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd yr ysgol, a datblygu eu medrau arwain trwy ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol fel bod yn aelod o gyngor ysgol neu bod yn aelod o'r Criw Cymraeg. Mae'r Criw Cymraeg yn rhagweithiol wrth wella'r Gymraeg ar draws yr ysgol mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae. Er enghraifft, maent wedi codi arian ar gyfer prynu posteri lliwgar ac apelgar i annog defnyddio'r Gymraeg ar yr iard. Maent hefyd yn trefnu sesiynau dysgu Cymraeg i rieni a'r gymuned ehangach drwy gyfrwng y 'Caffi Cymraeg' wythnosol yn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn gwneud cyflwyniadau i'r corff llywodraethol ac mae hyn yn rhoi'r cyfle iddynt gyfrannu at lywio cyfeiriad strategol yr ysgol. Maent hefyd yn trefnu gweithgareddau fel disgo calan gaeaf i godi arian. Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Er enghraifft, mae'r Criw Cymraeg yn ymweld â dwy ysgol gyfagos er mwyn eu cefnogi â'r Siarter Iaith.

Mae'r ysgol yn dathlu ei threftadaeth Gymreig yn gadarnhaol. Mae cyfleoedd dysgu wedi'u seilio ar yr ardal leol yn nodwedd gyffredin yn yr ysgol; er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn dylunio taflenni i hyrwyddo'r Rhondda i dwristiaid. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn cynnal digwyddiadau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac mae'r disgyblion yn cael cyfle i gystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd, gan wneud hynny'n llwyddiannus.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol a'r trefniadau i gadw pob disgybl yn ddiogel yn gadarn. Mae'r staff yn hybu a chefnogi diwylliant gwrthfwlio ac ymagweddau cadarnhaol tuag at reoli ymddygiad disgyblion. Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel rhag niwed, yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn addysgu plant am ddiogelwch ar y rhyngrwyd ac yn datblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd priodol ac amhriodol. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'r heddlu i gyflwyno'r negeseuon hyn mewn modd difyr a chadarn.

Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion drwy drefniant cadarn wrth gydweithio'n agos â rhieni ac asiantaethau allanol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar greu ysgol gynhwysfawr a gofalgar lle mae lles disgyblion yn ganolog i holl waith yr ysgol. Ynghyd â'i dirprwy, mae'n gosod disgwyliadau uchel priodol sy'n helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal safonau uchel a'u bod yn datblygu agweddau cadarnhaol a brwdfrydig at ddysgu. Mae'r staff yn gweithio'n arbennig o dda fel tîm ac maent yn hyrwyddo ac yn ymgorffori gwerthoedd proffesiynol sy'n gosod esiampl gref i ddisgyblion.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn cynnwys ffocws clir ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae pob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn effeithiol, sy'n cynnwys newidiadau pwrpasol wrth ddarparu Cwricwlwm i Gymru a chreu diwylliant cadarnhaol tuag at ddatblygu medrau darllen y disgyblion.

Caiff uwch reolwyr eu cynorthwyo'n fedrus gan gorff llywodraethol ymroddgar sydd â dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r pennaeth yn hysbysu'r llywodraethwyr yn ddeallus am ddysgu disgyblion ac maent yn gweithredu'n dda ar wella'r ddarpariaeth, fel gosod canopi a chyfarpar allanol i ddatblygu'r gweithgareddau awyr agored. Maent yn gwneud eu gwaith yn ddiwyd fel corff llywodraethol ac fel aelodau o is-bwyllgorau perthnasol. Er enghraifft, cymeradwywyd cynlluniau staffio newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol er mwyn caniatáu amser i'r arweinwyr arwain ar y gwaith o ddylunio cwricwlwm pwrpasol a chynnig cymorth proffesiynol mewnol ac effeithiol i'r staff. O ganlyniad, mae'r holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu datblygu'n broffesiynol ac maent yn falch iawn o fod yn rhan o gymuned weithgar yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn hyrwyddo arferion effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yn yfed yn iach ac mae'r arweinwyr yn cynghori rhieni ar bwysigrwydd bwyd maethlon a diet cytbwys.

Mae prosesau'r ysgol i werthuso'i heffeithiolrwydd a sicrhau ansawdd yn bwrpasol ac yn cynnwys pob aelod o staff. Mae'r amserlen fonitro yn sicrhau bod y cylch hunanwerthuso yn broses effeithiol sy'n cynnwys gwrando ar ddisgyblion a rhieni,

arsylwadau gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a chynnal cyfarfodydd i fesur cynnydd disgyblion. Mae hyn yn arwain at welliannau da, yn enwedig ym medrau llafaredd y disgyblion. Mae’r adroddiadau hunanwerthuso yn adnabod cryfderau ynghyd â’r agweddau ar gyfer gwelliant yn gywir. Mae’r cynllun datblygu ysgol yn nodi camau gweithredu addas a thargedau i fesur cynnydd. Mae’n canolbwyntio’n gadarn ar godi lles a chynnydd ym medrau disgyblion, gan gyfeirio at flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. O ganlyniad, mae pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau’n dda ac yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau a’u dealltwriaeth. Er enghraifft, mae’r staff cyfan yn rhan o weithdai’r Cwricwlwm i Gymru ac naill ai’n gweithio gydag ysgolion lleol mewn triawdau neu’n cydweithio’n fewnol ar ddylunio’r cwricwlwm. Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn gadarn ac yn cyfrannu’n werthfawr at eu datblygiad proffesiynol. Cânt gyfleoedd cyson i gynnal astudiaethau achos a gweithredu arnynt yn effeithiol. Mae’r staff cynorthwyol yn creu ystafell rithiol effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion bregus yn ogystal â’r disgyblion sy’n mynychu sesiynau ymyrraeth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymrwymiad a chyflawniad y disgyblion.

Mae’r arweinwyr yn rheoli’r gyllideb ac adnoddau yn ofalus. Mae’r gwariant yn cysylltu’n briodol â’r blaenoriaethau gwella. Gwenir defnydd pwrpasol o’r grant datblygu disgyblion i sicrhau bod disgyblion bregus yn cael eu cefnogi ac nad ydynt yn methu profiadau gwerthfawr.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu’n effeithiol â rhieni, er enghraifft trwy ddefnyddio ap dynodedig a rhannu cylchlythyrau, ac yn gwneud addasiadau priodol i gefnogi anghenion unigol rhieni. Hefyd, mae arweinwyr yn rhoi cyngor gwerthfawr i rieni ynglŷn â sut gallant gynorthwyo eu plant, er enghraifft trwy arddangos gwybodaeth allweddol am sut i gadw’n ddiogel ar lein drwy wefan yr ysgol a chynnig gweithdai ar bwysigrwydd datblygu medrau darllen y disgyblion. Hefyd, maent yn cyfeirio rhieni at wasanaethau allanol defnyddiol yn rheolaidd ac yn gweithio’n agos gyda’r gwasanaeth Cysylltiadau Teuluol, fel y bo’r angen.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/01/2023